

Rhan 1 Cyflwyniad



Social Co-operation Forum
Fforum Cydweithredu Cymdeithasol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a mentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr

Cyfres o ffeiliau ffeithiau gan Anabledd Cymru a'r Fforwm Cydweithredu Cymdeithasol gyda chyllid gan Gyngor Gofal Cymru.

Paratowyd yr adnoddau dysgu hyn er mwyn helpu i weithredu amodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan ganolbwyntio'n benodol ar fentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr.

Nod y Ddeddf yw trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol Cymru, gan wella llesiant pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen help.

Nod yr adnoddau:

- Gwella ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o fentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr wrth ddarparu gofal a chymorth cymdeithasol
- Symbylu datblygiad o fentrau cydweithredol er darparu gofal a chymorth cymdeithasol
- Darparu gwybodaeth er cefnogi mentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr.

Grwpiau targed:

Darperir yr adnoddau ar gyfer y grwpiau dilynol:

- Gweithwyr gofal a chymorth cymdeithasol
- Defnyddwyr gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol
- Dinasyddion eraill.

Canlyniadau dysgu

Bydd yr adnoddau yn:

- Gwella dealltwriaeth o sut mae mentrau cydweithredol yn gallu darparu

gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol

- Helpu dysgwyr i nodi buddion a chyfleoedd ble gallai mentrau cydweithredol ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth
- Darparu gwybodaeth am sut i ddatblygu mentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr er darparu gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol, a ble i gael cyfarwyddyd pellach.

● **Adnoddau:**

Mae'r ffeil ffeithiau'n cynnwys 5 elfen:

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Beth yw mentrau cydweithredol?**
- 3. Mentrau cydweithredol yn darparu gofal a chymorth cymdeithasol**
- 4. Enghreifftiau o fentrau cydweithredol yn darparu gofal a chymorth cymdeithasol**
- 5. Sut i sefydlu mentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr**

● **Beth yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?**

Bydd y Ddeddf yn newid dull darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd yn golygu newid i'r trefniadau asesu a darparu gofal a chymorth.

Nod y Ddeddf yw darparu llais a rheolaeth gryfach ar gyfer pobl o ran y gwasanaethau byddant yn derbyn, a hyrwyddo annibyniaeth unigolion.

● **Adran 16, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Cysylltwyd y gyfres ffeil ffeithiau hon ag **Adran 16** o'r Ddeddf, sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chydweithredol, gwasanaethau o dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector wrth ddarparu gofal a chymorth cymdeithasol. Mae'r **Cod Ymarfer (Rhan 2)** yn tanlinellu mai'r nod yw cynyddu nifer y cyrff nid-er-elw yn darparu gwasanaethau a chymorth, a darparu mwy o amrywiaeth o wasanaethau.

Yn ogystal bydd rhaid i awdurdodau lleol gynnwys pobl sy'n defnyddio

gwasanaethau gofal a chymorth yn y broses o gynllunio a chynnal y fath wasanaethau. Bydd yn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros eu gwasanaethau a sicrhau y cynllunnir nhw er diwallu anghenion pobl.

Cysylltir hynny â **chyd-gynhyrchu**, sef trefn sy'n trin dinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn gyfartal. Bydd y drefn hon yn galluogi pawb gyda diddordeb yn y gwasanaeth i fod yn rhan o benderfyniadau am ei ddarpariaeth. Mae mentrau cydweithredol o dan arweiniad defnyddwyr mewn sefyllfa dda i ddilyn **egwyddorion cyd-gynhyrchu** am eu bod yn cael eu rhedeg mewn modd democrataidd.

Mae'r ffeiliau ffeithiau'n canolbwyntio ar fentrau dan arweiniad defnyddwyr wrth ddarparu'r fath wasanaethau. Bydd cyrff fel hyn yn galluogi unigolion a chymunedau i reoli darpariaeth o'u gwasanaethau.

● **Mentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr a byw'n annibynnol**

Bydd mentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr ym maes gofal a chymorth cymdeithasol yn dilyn egwyddorion **Byw'n Annibynnol**.

"Byw'n Annibynnol yn ein galluogi fel pobl anabl i wireddu amcanion a byw ein bywydau fel y dymunwn."

Anabledd Cymru, 2010

Bydd mentrau cydweithredol yn cefnogi byw'n annibynnol wrth roi rheolaeth o'r gwasanaethau yn nwylo defnyddwyr.

Bydd mentrau cydweithredol fel hyn yn elfen bwysig o'r Ddeddf wrth gynnal ei gwerthoedd, yn cynnwys rhoi llais a rheolaeth i ddinasyddion.

● **Defnyddio'r adnoddau hyn**

Gellir defnyddio pob ffeil ffeithiau ar ben ei hun am gyfarwyddyd mewn un maes, neu fel cyfres er cael gwybodaeth gyffredinol am y pwnc.

Manylion pellach am fyw'n annibynnol yn **www.disabilitywales.org**

Manylion pellach am gyd-gynhyrchu yn **www.goodpractice.wales/co-production-catalogue-from-wales**